


# Crynodeb o'r Arweiniad Statudol a'r Rheoliadau ar gyfer Rhan 7 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014




**Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014**



Mae'r Ddeddf hon am ddyfodol gofal cymdeithasol yng Nghymru.




Mae fersiwn Hawdd ei Darllen o'r Ddeddf ar wefan Llywodraeth Cymru.



Mae angen i bawb yng Nghymru wybod sut i wneud beth mae'r Ddeddf yn dweud.




Mae hyn yn golygu bod angen **Rheoliadau** a **Chod Ymarfer** neu **Arweiniad Statudol** ar y Ddeddf.

Rheolau yw'r **Rheoliadau.** Mae'r rheolau'n dweud beth sy'n **rhaid** gwneud.




Mae'r **Arweiniad Statudol** yn disgrifio sut beth fydd gofal cymdeithasol. Mae rhai pethau yn yr **Arweiniad Statudol** yn gyngor da. Mae rhai pethau yn yr **Arweiniad Statudol** yn bethau y mae'n **rhaid** eu gwneud.




Mae'r Ddeddf yn dechrau yn Ebrill 2016.




# Ysgrifennu’r Rheoliadau a’r Arweiniad Statudol



Rydyn ni wedi gofyn i lawer o bobl beth ddylen ni ei roi yn y **Rheoliadau** a’r **Arweiniad Statudol**.



Rydyn ni wedi ysgrifennu peth o’r **Rheoliadau** a’r **Arweiniad Statudol**.

Nawr rydyn ni eisiau gwybod beth ydych chi’n meddwl.

**Llun**

**2 Chwefror**

**2015**

Mae’n rhaid i chi ddweud wrthon ni beth ydych chi’n meddwl erbyn 2 Chwefror 2015.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Byddwn ni’n edrych ar y pethau rydych yn dweud wrthon ni.



Yna byddwn yn mynd â'r **Rheoliadau** i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mai 2015.




Byddwn yn gofyn iddyn nhw gytuno i'r **Rheoliadau.**




Yna bydd gan bawb tan Ebrill 2016 i baratoi i wneud beth mae'r **Rheoliadau** yn dweud.




Rydyn ni dal yn ysgrifennu peth o'r **Rheoliadau** a'r **Chodau Ymarfer** am rannau eraill o'r Ddeddf.




Byddwn yn gofyn i chi am y rhain ym Mai 2015.




Rydyn ni wedi ysgrifennu **Rheoliadau** am:



- Gorchmynion Amddiffyn a Chefnogi Oedolion.




- Byrddau Diogelu (rydyn ni wedi ysgrifennu dwy set o **Reoliadau** am hyn).



- Y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol.




Rydyn ni hefyd wedi ysgrifennu **Arweiniad Statudol** am Ddiogelu.




Gallwch weld hwn ar wefan Llywodraeth Cymru.




Mae diogelu am gadw oedolion a phlant yn ddiogel.





Mae'r Ddeddf yn dweud os ydych chi'n gweithio i un o'r sefydliadau hyn, mae'n **rhaid** i chi ddweud wrth rywun os ydych chi'n meddwl bod plentyn neu oedolyn bregus mewn perygl.




- Cyngor lleol.




- Heddlu.




- Prawf.




- Y GIG (NHS).



Os ydych chi’n gweithio i un o’r sefydliadau hyn mae’n **rhaid** i chi wybod:



- pwy i ddweud wrthyn nhw yn eich ardal chi.




- sut i ddweud wrth sefydliadau mewn ardal arall.



## Gorchmynion Amddiffyn a Chefnogi Oedolion




Rydyn ni wedi ysgrifennu **Rheoliadau** am Orchmynion Amddiffyn a Chefnogi Oedolion.




Gorchymyn llys newydd yw hwn.
Dyma sut mae'n gweithio:



- Mae gweithiwr proffesiynol yn credu efallai bod oedolyn bregus mewn perygl.



- Maen nhw wedi ceisio gwirio, ond mae rhywun yn stopio nhw rhag gweld yr oedolyn bregus.



- Mae'r gweithiwr proffesiynol yn dweud wrth y llys.



- Gall y llys roi Gorchymyn Amddiffyn a Chefnogi Oedolion i'r gweithiwr proffesiynol.



- Mae'r Gorchymyn yn golygu gall y gweithiwr proffesiynol fynd i mewn i dŷ rhywun heb ganiatâd y person.



- Yna gall y gweithiwr proffesiynol wirio a yw'r oedolyn bregus yn ddiogel.



**Byrddau Diogelu**




Mae Rhan 7 o'r Ddeddf yn dweud beth mae'n rhaid i'r Byrddau wneud.




Rydyn ni hefyd wedi ysgrifennu **Rheoliadau** am y rhain.




**x6**

Bydd 6 Bwrdd i blant.




**x6**

Bydd 6 Bwrdd i oedolion.




Eu gwaith nhw yw gwneud yn siwr bod gweithwyr proffesiynol yn gweithio gyda'i gilydd i gadw pobl leol yn ddiogel.




Mae Rhan 7 o'r Ddeddf yn dweud beth mae'n rhaid i'r Byrddau wneud.



Bydd rheolau i wneud yn siŵr y gall pobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal cymdeithasol weithio gyda'r Byrddau.



## Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol




Rydyn ni wedi ysgrifennu **Rheoliadau** am hyn.



**X1**

Bydd 1 Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol.




**+**




Mae’r Bwrdd Cenedlaethol i blant ac oedolion bregus.



Bydd y Bwrdd Cenedlaethol yn:

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

- Helpu Gweinidogion Cymru; a



- Helpu Byrddau Diogelu i weithio gyda’i gilydd i gadw pobl yn ddiogel.